

Patrwm cyflwyno *O fis Chwefror i fis Ionawr*
 O fis Hydref i fis Hydref

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl hwn yn archwilio ein dealltwriaeth o ymarfer cynhwysol yng nghyd-destun y nod byd-eang i sicrhau llythrennedd i bawb. Mae'r modiwl hwn yn archwilio'r safbwyntiau ar asiantaeth dysgwyr a'r modd y gellir ei galluogi, a hynny o safbwynt llythrennedd. Drwy archwilio'r prif ymagweddau at faterion cyfiawnder cymdeithasol a dysgu (unigol, lluniadaeth gymdeithasol a diwylliannol-gymdeithasol), mae'n cynnig mynediad at amrywiaeth eang o faterion sy'n gysylltiedig â llythrennedd, gan fyfyrion'n ôl ar ddealltwriaeth y myfyrwyr o faterion ehangach sy'n berthnasol i amrywiaeth o arferion cynhwysol, dysgwyr a chyd-destunau dysgu. Yn ogystal â rhoi cipolwg ar y trafodaethau allweddol sy'n gysylltiedig â llythrennedd ac ymarfer cynhwysol, mae'r modiwl hwn hefyd yn archwilio'r prif ymatebion swyddogaethol a beirniadol i llythrennedd, yn ogystal ag i addysgu ac asesu yn fwy cyffredinol. Mae'n rhoi'r adnoddau i fyfyrwyr ymchwilio i'w hymarfer a'u cysyniadau eu hunain, a'u harchwilio, fel eu bod yn gallu deall yn well yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn hyddysg ynghyd â'r modd y gallant gefnogi'r dysgwyr y maent yn gweithio gyda nhw.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd uwch ar lefel meist, o leiaf, ac, yn ddelfrydol, ar lefel ddoethurol
- gwybodaeth am theori feirniadol a dulliau ymchwilio ac ymholi sy'n seiliedig ar theori feirniadol; gwybodaeth am bolisi addysg ac ymarfer mewn amrywiaeth o leoliadau; gwybodaeth am ddulliau ymchwil i drawsnewid ymarfer, a dealltwriaeth ohonynt; gwybodaeth am ddulliau damcaniaethol gwahanol o ddysgu llythrennedd mewn amrywiaeth o leoliadau, a dealltwriaeth ohonynt
- profiad o addysgu myfyrwyr lefel meist ar-lein, y gallu i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol myfyrwyr; y gallu i feithrin eu dealltwriaeth o brosesau ymchwil o safbwynt theori ddamcaniaethol a diwylliannol-gymdeithasol.
- tystiolaeth o annog deialog, rhyngweithio rhwng myfyrwyr ac ymarfer arloesol mewn perthynas â hyfforddiant ar-lein rhyngweithiol
- tystiolaeth o ymrwymiad i ymgysylltu â chydweithwyr modiwlau eraill mewn gwaith addysgu tîm cydweithredol o fewn tiwtorialau ar-lein
- y gallu i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu 'cymuned ymarfer' a gwaith cydweithredol, a hynny o fewn y grwpiau tiwtorial a thîm y modiwl.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- ymrwymiad i ddarllen erthyglau newydd ym maes theori feirniadol, llythrennedd ac ymarfer cynhwysol, ac i rannu'r wybodaeth hon â chydweithwyr a myfyrwyr
- ymrwymiad i gymryd rhan mewn trafodaeth â chymheiriaid am addysgu a dysgu
- ymrwymiad i hwyluso cymorth cyfoedion ymhlith y myfyrwyr
- gwybodaeth am lenyddiaeth a dulliau ymchwil mewnol a/neu sy'n seiliedig ar yr ymarferydd, a phrofiad ymarferol ohonynt

Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	15
Band cyflog:	5
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	3.5